OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1618

# Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

**Cymhwyso**

**3.** Yn ddarostyngedig i reoliad 4, mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â'r trafodiadau tir a ganlyn sydd â dyddiad effeithiol ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020—

(a) trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch y mae Tabl 2 o'r Atodlen i Reoliadau 2018 yn gymwys iddynt;

(b) trafodiadau eiddo amhreswyl y mae Tabl 3 o'r Atodlen i Reoliadau 2018 yn gymwys iddynt; a

(c) cydnabyddiaeth drethadwy sydd ar ffurf rhent y mae Tabl 4 o'r Atodlen i Reoliadau 2018 yn gymwys iddi.